# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 18fed o Ionawr 2021 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Bethan Lawton, Alan H. Jones

1. Ymddiheuriadau: Dim

Dymunodd y Cadeirydd blwyddyn newydd dda.

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 14 Rhagfyr 2020:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101721 | £188.52 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101722 | £47.00 |
| Jones & Jones | Llwybrau | 101723 | £275.40 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru - Ail-agor Pont-ar-Ddyfi yn dilyn llifogydd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

6. Morris & Bates Cyfreithwyr - Elusen Dolgoch:

Adroddwyd nad oedd dim i'w adrodd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Cyngor Gwynedd - Adran Gyllid - Ymgynghoriad ar gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi a thai gwag i 100%:

**PENDERFYNIAD:** I ymateb yr ymgynghoriad drwy ddatgan cefnogaeth unfrydol y cyngor i godi'r premiwm ar ail gartrefi a thai gwag hirdymor i 100%.

8. Adolygu gwariant o Ebrill 2020 i Ragfyr 2020:

Darparwyd taenlen Excel yn manylu ar y gwariant, a'r gwariant yn erbyn y gyllideb.

Amcangyfrifwyd bod oddeutu £3,000 o wariant i'w wneud o Ionawr 2021 hyd at Mawrth 2021, gyda oddeutu £21,000 ar ôl ym malansau'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Gosod cyllideb ar gyfer 2021/2022:

| **CYLLIDEB** | **2021/2022** |
|---|---:|
| CLERC - CYFLOG | £1,435.00 |
| CLERC - YG | £200.00 |
| CLERC - TEITHIO | £500.00 |
| CLERC - HYFFORDDIANT | £75.00 |
| GWEINYDDOL - DEUNYDD SWYDDFA | £50.00 |

| | |
|---|---|
| GWEINYDDOL - POSTIO | £90.00 |
| GWEINYDDOL - LLOGI YSTAFELL | £220.00 |
| GWEINYDDOL - FFÔN | £100.00 |
| GWEINYDDOL - GWEFAN | £100.00 |
| PENTREF - CYNNAL A CHADW | £1,000.00 |
| PENTREF - CELFI HANESYDDOL | £500.00 |
| PENTREF - BLODAU | £350.00 |
| PENTREF - FEINCIAU | £100.00 |
| PENTREF - LLOCHESI BWS | £250.00 |
| PENTREF - TOILED | £2,000.00 |
| PENTREF - CLWB IEUENCTID | £1,600.00 |
| PENTREF - ARWYDD CYFLYMDER | £3,000.00 |
| CAE - TRYDAN | £50.00 |
| CAE - PAFILIWN | £1,000.00 |
| CAE - TORRI GWAIR | £1,000.00 |
| CAE - OFFER CHWARAE NEWYDD | £8,000.00 |
| CAE - CYNNAL A CHADW OFFER | £600.00 |
| CAE - BINIAU 'SBWRIEL | £120.00 |
| CYFRANIADAU A.137 | £750.00 |
| CORFFORAETHOL - UN LLAIS CYMRU | £110.00 |
| CORFFORAETHOL - YSWIRIANT | £650.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD MEWNOL | £150.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD ALLANOL | £285.00 |
| AELODAU - ETHOLIAD | £0.00 |
| AELODAU - HYFFORDDIANT | £200.00 |
| AELODAU - COSTAU TEITHIO | £100.00 |
| AELODAU - LWFANS | £1,350.00 |
| AELODAU - LWFANS GOFALU | £300.00 |
| SEFYLLFA ANARFEROL | £0.00 |
| **CYFANSWM** | **£26,235.00** |

**PENDERFYNIAD:** I osod cyllideb fel yr uchod ar gyfer 2021/2022, sef £26,235.

10. Gosod y bresept ar gyfer 2021/2022:

**PENDERFYNIAD:** I osod y bresept ar gyfer 2021/2022 yn £12,859, sydd yn golygu codiad gwerth 2%, gyda gweddill o'r arian o'r balansau.

11. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-Y Pafiliwn yn fudr
-Sigarets yn cael eu gadael y tu allan i'r Pafiliwn
-Tyrchod yn tyllu y cae
-Y rhwystrau o amgylch y cael dal i fyny
-Y mesurydd trydan yn dangos balans gyda dyled o £30
-Rylock nuts o'r siglen newydd wedi dod yn rhydd

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Cynghorydd Bethan Lawton i gysylltu gyda PlayQuest parthed y Rylock nuts.
Y Clerc i gysylltu gyda Grace Greenhow parthed y ddau tyrchod sydd yn tyllu'r cae, gan ofyn iddi ddal y tyrcho.
Y Clerc i wneud ymholiadau am matiau diogelwch ail-law sydd ar gael.

12. Cae Chwarae - Telerau llogi y cael pêl-droed a'r Pafiliwn:

**PENDERFYNIAD:** I adael y mater ar y bwrdd.

13. Cae Chwarae - gosod les i Glwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I adael y mater ar y bwrdd.

14. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Nid oedd dim i'w adrodd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-Meddygfa Tywyn yn darparu brechlyn Covid-19 o'r feddygfa, nid o'r Ganolfan Hamdden

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan gynnwys yr Aelod Seneddol yn yr ohebiaeth, er mwyn gofyn am y rheswm pam nad yw'r ganolfan hamdden yn cael ei ddefnyddio fel canolfan brechu lleol. Mynegi pryder y cyngor nad yw'r ganolfan hamdden yn cael ei ddefnyddio fel canolfan brechu lleol, gan hefyd ofyn barn y bwrdd iechyd os ydynt yn ffyddiog y bydd y feddygfa yn medru darparu'r brechlyn i Tywyn ag ardal Dysynni.
I gael dyfynbris am arwyddion mesur cyflymder, sydd yn cynnwys y gost o gynnal a chadw'r arwyddion, a manylion o safbwynt hyd bywyd yr offer.
Contractwr y cyngor i ail-osod arwydd llwybr cyhoeddus sydd wedi disgyn ger Bronwylfa, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce i ddangos y lleoliad ble y bu'r arwydd yn sefyll yn y gorffennol.

16. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd unrhyw fater brys i'w drafod.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:10pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................